

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW
7:30YH 28^{AIN} GORFFENNAF 2021
(CYFARFOD DRWY GYSWLLT GWEFAN 'ZOOM' OHERWYDD COVID-19)

1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU

1.1 Croesawyd bawb gan Clwyd Roberts (CR)

1.2 Presennol: Ann Vaughan (AV), Diane Roberts (DR), R. Emlyn Williams (REW), Garffild Ll. Lewis (GLL), Gwynfor Davies (GD), Mark Davies (MD), Einir Williams (EW) & Gwyn Williams (GW)

1.3 Absennol: Gwydion Jones (GJ)

2 DATGANIAD DIDDORDEB

AV: 7.1

3 COFNODION I'W GWIRO 23^{AIN} MEHEFIN 2021

Cynnigwyd yn gywir gan REW ac eilwyd gan AV.

4 MATERION YN CODI

Fel gwelir isod.

GD yn codi'r mater o filiau'r Gadlas heb eu talu, wedi gwneud ymholiadau. Anfoneb Ebrill 2019 wedi ei dalu. REW hefyd wedi bod yn gwneud ymholiadau ers y cyfarfod diwethaf ac yn cadarnhau fod y ddwy anfoneb wedi eu talu.

CR yn holi AV os yw Ednyfed Vaughan am gychwyn ar y gwaith ar giatiau'r fynwent yn y dyfodol agos, AV yn adrodd ei fod yn gwneud y gwaith yn fuan. Ffordd ar gau ddechrau mis Awst felly cyfle i wneud heb amharu ar draffig ayyb.

DR & MD wedi gwneud ymholiadau ynglyn â'r gwrych, y gwaith wedi ei gychwyn neithiwr.

5 CEISIADAU CYNLLUNIO

5.1 0/48627: dim sylw i'w wneud am y cais, cymeradwyo.

6 MATERION ARIANNOL

6.1 Dim materion ariannol.

GD yn adrodd er gwybodaeth faint o arian mae'r Cyngor wedi ei wario yn y chwarter diwethaf: £2,806.05. DR yn gofyn os oes modd rhoi trafodaeth am y fantolen ar agenda mis Medi.

GW yn ymuno yn y cyfarfod

7 MATERION Y CYNGOR

7.1 Non Davies (ND), Esgair Eithin yn ymuno â'r cyfarfod. CR yn crynhoi fod y cynghorwyr wedi derbyn ebost gan GLL bore ma.

ND ddim yn ymwybodol fod ardal eang Moelfre Uchaf wedi ei glustnodi ar gyfer datblygiad ynni gwynt ac yn synnu nad oedd cynghorau ac awdurdodau lleol chwaith yn ymwybodol o hynny. Trafododd y wybodaeth y mae wedi ei ddarganfod ynglyn â'r cynllun. CR yn gofyn os oedd gan y cynghorwyr sylw i'w wneud. MD yn trafod fod y prosiect yma yn debyg i gynllun blaenorol gan y Cynulliad sydd ddim yn mynd drwy'r broses gynllunio lleol. ND wedi gofyn am asesiadau sydd wedi eu gwneud ynglyn a'r prosiect, rhain ddim ar gael. DR wedi cysylltu efo Darren Miller, doedd o ddim yn ymwybodol o'r prosiect yma, wedi cysylltu efo Bute Energy ac yn adrodd yn ôl i ddweud eu bod wedi ymgynghori ac Un Llais. Un Llais wedi adrodd nad ydynt wedi ymgynghori ac yn siomedig fod Bute Energy wedi defnyddio eu

henw mewn ebost i Darren Miller. DR wedi gofyn pryd, os oedd Un Llais wedi ebostio'r Cyngor, oedd Un Llais wedi anfon ebost ddechrau'r flwyddyn yma i ddweud fod y Cynulliad wedi rhyddhau'r adroddiad yn ymwneud a'r cynllun. ND yn nodi fod angen ynni adnewyddiol ond os y bydd y cynllun yn mynd ymlaen bydd y dalgylch yn cael ei amgylchynu efo tyrbinau.

GLL yn diolch i ND am ddod a'r pwynt yma i sylw gan nad oedd ymgynghoriad wedi bod efo'r Cyngor Sir chwaith. GLL wedi cyfarfod Bute Energy efo Ifor Lloyd (Cynghorydd Llanfair TH), angen mwy o wybodaeth am y cynllun dros y misoedd nesaf. GLL am basio gwybodaeth ymlaen i'r Cynghorwyr. Teimlad fod Llywodraeth Cymru wedi mynd tu ôl i gefn Cynghorau a chymunedau tu ôl i ddrysau caedig. EW hefyd yn diolch i ND dynnu sylw at y mater ac i GLL am yr adroddiad dderbynwyd o flaen y cyfarfod. GLL wedi codi efo Bute Energy y buasai yn syniad i'r Cyngor gyfarfod efo hwy i drafod ymhellach. Cynnig hefyd gwahodd Llyr Gruffydd a Darren Millar.

7.2 CR wedi cael manylion gan Lucy Steel. Gofyn i DR am y person oedd ganddi dan sylw, ddim wedi gwneud eu meddwl i fyny felly cario ymlaen i roi'r hysbyseb i fyny a gadael i Lucy Steel wybod a dilyn y broses.

7.3 CR wedi cael ateb gan Wil Roberts yn y Cyngor Sir ynglyn â gor-yrru a rhoi paent i farcio cyflymder ar y ffordd, ddim yn orfodol i wneud hynny gan fod goleuadau stryd yn yr ardal. DR yn gofyn os gaiff y Cyngor Cymuned wneud hynny, CR yn nodi fod angen caniatad i wneud hyn. AV yn nodi fod 30mya ar y ffordd drwy'r pentref yn Nolwyddelan. AV hefyd yn codi nad oes modd gweld yr arwydd 20mya yn y pentref gan fod tyfiant o'r clawdd yn ei guddio. Bwriad i symud yr arwyddion gan eu bod yn cael eu cuddio, peilot dal i fynd am ychydig amser eto gan obeithio fydd hyn yn barhaol. CR hefyd yn codi efallai y bydd y 30mya yn cael ei ymestyn i'r de o Langernyw. DR wedi ebostio cwmni Roland Young yn adrodd fod un o'i lorïau wedi bod yn gor-yrru drwy'r pentref, heb gael ymateb llawn. REW yn dweud fod côt lachar yn tynnu sylw ac yn helpu efo cyflymder. DR yn cofnodi rhifau ceir sydd yn gyrru.

AV yn adrodd fod arwydd plant a 30mya ar y ffordd i mewn i Lansannan, wedi gofyn wrth yr ysgol pwy oedd wedi gwneud rhain a wedi cael gwybod taw Berwyn Evans sydd wedi eu gwneud. Wedi gofyn wrtho a buasai'n fodlon gwneud arwyddion i Langernyw am gôst o tua £200. Pawb yn gytun i ofyn wrth Berwyn Evans i wneud rhain. AV i ofalu.

7.4 CR yn diweddaru'r Cynghorwyr am y gwaith sydd yn ac angen cael ei wneud ar y llwybrau.

7.5 EW yn trafod fod hyn yn ceisio dod ac angen i glercod gael cymhwysterau penodol allan, EW yn teimlo fod angen ymateb i'r ymgynghoriad gan nad oes gan y Cyngor glerc. Trafodaeth am hyn yng nghyfarfod mis Medi. EW i wneud ymholiadau pellach erbyn hynny.

8 ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR

Derbynwyd yr isod o flaen y cyfarfod, crynhodd GLL y prif bwyntiau sydd eisioes heb eu trafod uchod.

AV yn adrodd wrth y cynghorwyr fod y garreg oedd wedi ei darganfod o dan y Bont Faen wedi cyraedd Amgueddfa'r Cwm.

"Diweddariad i'r Cyngor Cymuned. 28.07.2021

1. Fferm Wynt arfaethedig.

Fe ddaeth Garffild yn ymwybodol o'r cynllun ar y 13eg o Fehefin wedi iddo dderbyn ebost gan Non a Tom Esgaireithin. Roedd Clwyd wedi derbyn yr un ebost.

Wedi hynny, fe wnaeth Garffild fwy o ymchwil a chael cyfarfod dros Zoom gyda chynrychiolwyr Bute Energy – y cyntaf o ddau gyfarfod, gyda'r ail gyfarfod wyneb yn wyneb yn Llanfair TH.

Mae Garffild hefyd wedi trafod y sefyllfa gyda swyddogion Cynllunio'r Cyngor Sir ac wedi gohebu gyda Llyr Huws Gruffydd AS. Mae Llyr hefyd wedi gwneud ymchwil ac wedi anfon adroddiad cynhwysfawr yn egluro'r cefndir (wedi ei atodi ar ddiwedd adroddiad Garffild).

Dyma grynodedb o'r sefyllfa yn seiliedig ar waith ymchwil Garffild:

- Mae'r cynllun Fferm Wynt yn elfen o Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Llywodraeth Cymru – fframwaith sydd yn llawer ehangach na ffermydd gwynt – mae hefyd yn cynnwys ardaloedd datblygu economaidd, adfer amgylcheddol, ynni a nifer o faterion eraill.
- Mae'r Fframwaith yn dynodi 10 ardal drwy Gymru, sydd, yn dilyn gwaith asesu gan gwmni peirianyddol ARUP yn 'addas' ar gyfer Ffermydd Gwynt o faint sylweddol. Mae'r ardal dan sylw yn ardal Llangernyw/Llanfair TH/Betws yn Rhos yn un rhan o'r 10 ardal.
- Mae Llywodraeth Cymru yn cadarnhau fod proses ymgynghori llawn wedi bod wrth greu dogfen 'Future Wales' – rhwng 2016 a 2020 ac wedi bod gerbron dau bwyllgor Seneddol yng Nghaerdydd a'r Senedd lawn. (mae rhagor o fanylion am y broses ymgynghori yn nogfen Llyr Huws Gruffydd isod).
- Mae 'Future Wales' yn adnabod nifer o ardaloedd sydd wedi eu 'asesu o flaen-llaw ar gyfer Ynni Gwynt' ac mae Llywodraeth Cymru wedi modelu ardrawiad tebygol hyn ar y tirwedd. Yn yr ardaloedd hyn hefyd, mae 'presumption in favour' – sy'n golygu na fydd angen caniatad cynllunio lleol – dim ond Cenedlaethol – OND, byddai unrhyw ddatblygiad yn dibynnu ar fodloni nifer o 'criteria'.
- O ran yr ardal hon – a ddynodir yn ardal 'Moelfre' gan gwmni Bute Energy, mae'r cwmni wedi cynnal nifer o drafodaethau gyda thirfeddianwyr ac yn y broses o drafod cytundebau a phrydlesi gyda'r tirfeddianwyr hynny. Y tebygolrwydd ydi y bydd y prydlesi hynny am 30-35 mlynedd.
- Mae gan unrhyw gwmni yr hawl i drafod cytundebau gyda thirfeddianwyr – dyw Llywodraeth Cymru ddim wedi cytundebu Bute Energy nac unrhyw gwmni arall i ddatblygu'r safle hwn – ond Bute Energy oedd y cyntaf i sylweddoli'r potensial a dyna pham mae nhw ar frys i gytundebu cyn i unrhyw gwmni arall ddechrau cynnig telerau hefyd. Mae Bute yn gwneud gwaith tebyg mewn 7 ardal arall yng Nghymru.
- Dyw'r union nifer o dwrbeini ddim wedi gadarnhau – ond yn debyg o fod rhwng 15 a 24 ac o faint sylweddol, hyd at 180 - 250m uchder. Mae opsiwn hefyd i ddatblygu fferm 'solar' o fewn yr un ardal ond dyw hynny ddim yn y cynllun ar hyn o bryd.
- Mae Bute energy wedi cadarnhau gyda Garffild y bydd proses ymgynghori llawn dros 12 mis gyda chymunedau lleol, Cynghorau Cymuned yr ardal, y Cyngor Sir a chyrrff satudol fel Cyfoeth Naturiol Cymru, Dwr Cymru, Cadw ac eraill.
- Yn ogystal mae sawl adolygiad/asesiad arall i'w cynnal – er enghraifft 'capasiti' y Grid Cenedlaethol i drosglwyddo trydan allan o'r ardal, asesiad ardrawiad gweledol, swm, ymgynghori gyda mesydd awyr fel Lerpwl ac RAF Fali ac eraill.
- Ar ddiwedd y broses hon, bydd cais cynllunio i Lywodraeth Cymru tua diwedd 2022
- Fe fydd agwedd y Cyngor Sir yn bwysig yn yr ymgynghoriad, er nad yr Awdurdod fydd yn caniatáu neu wrthod caniatad cynllunio. Mae'n ddiddorol nodi fod Cyngor Conwy wedi asesu'r ardal yma ar gyfer potensial Ynni Gwynt – ac wedi penderfynu nad oedd yr ardal yn addas oherwydd ardrawiad ar yr amgylchedd a'r tirwedd, a phryderon am y cyswllt Grid.
- Hyd yma does na ddim ymgynghori na chyswllt wedi bod rhwng Bute Energy ac adran gynllunio Cyngor Conwy – ond mae'r Cyngor bellach yn ymwybodol o'r cynllun o ganlyniad i drafodaethau rhwng Garffild a Swyddogion Cynllunio.
- Mae Bute Energy yn awyddus i drafod 'ymwneud' Cymunedol gyda chymunedau lleol, a sut orau i'r ardal fanteisio yn economaidd yn y tymor hir

- Soniodd cynrychiolwyr Bute Energy fod safle arall dan sylw yn yr ardal, ychydig fwy i'r De ar y ffin gyda Sir Ddinbych, a chynllun yno i godi 12 twrbein. Dim rhagor o fanylion am hyn ar hyn o bryd.

Mae dadleuon cryf o blaid ac yn erbyn Ynni Gwynt – yn Genedlaethol ac yn lleol ym mhob ardal lle mae cynlluniau arfaethedig. Mae ardrawiad gweledol sylweddol, materion yn ymwneud â swm, effaith ar fywyd gwyllt ac effaith ar gymunedau. Mae elfennau dadleuol eraill fel yr effaith ar y rhwydwaith ffyrdd dros gyfnod yr adeiladu, y cysylltiadau gyda'r Grid Cenedlaethol a hefyd pa mor gynladwy ydi cwmnïau fel Bute Energy ac eraill dros gyfnod o 30 – 35 mlynedd a beth yw cynlluniau dad-gomisiynu ar ddiwedd y cyfnod hwnnw.

Ar yr ochr arall, mae polisi a strategaeth Llywodraeth Cymru o ran Ynni Glan, cyrraedd net zero carbon ayb, yn rhoi pwyslais mawr ar Ynni Gwynt, Ynni Solar a dulliau 'glan eraill'. Ar lefel leol, mae Ffermydd Gwynt yn gallu creu budd economaidd sylweddol i gymunedau lleol (ac i dirfeddianwyr unigol) a hynny yn yr hir-dymor (Clocaenog a Brenig yn enghreifftiau).

O ran 'Cynllun Moelfre', mae'n ddyddiau cynnar ac fe fydd Garffild yn parhau i gynnal trafodaethau gyda'r Cyngor Sir, rhan-ddeiliaid eraill, y gymuned yn lleol a chwmni Bute Energy dros y misoedd nesaf ac yn trosglwyddo unrhyw wybodaeth i'r Cyngor Cymuned ac eraill. Mae Bute Energy wedi cynnig anfon cynrychiolwyr i wneud cyflwyniad ac ateb unrhyw gwestiynau gan bob Cyngor Cymuned yn yr ardal, ac mae Garffild yn hapus i hwyluso hyn os yw'r Aelodau yn dymuno hynny.

Adroddiad Llyr Huws Gruffydd AS

Dyma fanylion (isod) y broses o ymgynghori cyhoeddus yn ymwneud â'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) sy'n dangos yn glir fod cyfleoedd wedi bod i gyrff ac unigolion roi eu mewnbwn i'r cynllun wrth iddo gael ei greu.

Fel rwyf wedi esbonio yn flaenorol fe wnes i a Phlaid Cymru yn y Senedd wrthwynebu'r FfDC ar sawl cam o'r ffordd trwy bwyllgorau'r Senedd, codi materion efo Gweinidogion ac mewn dadleuon seneddol. Roedd y ddadl derfynol yn un lle wnes i amlinellu sawl rheswm dros wrthod y Fframwaith ac fe bleidleisiodd Plaid Cymru yn erbyn ei fabwysiadu. Yn anffodus roedd y pleidiau eraill o blaid ac felly fe gafodd ei basio.

Does dim ffordd bellach i'w atal oni bai fod y Gweinidog neu'r Llywodraeth yn dewis newid cyfeiriad.

Cofiwch nad dim ond yn delio efo ynni adnewyddadwy mae'r FfDC – mae'n cynnwys ardaloedd twf economaidd, ardaloedd ar gyfer adfer amgylcheddol a phob math o flaenoriaethau eraill. Un elfen yn unig ydi ynni.

Dydi mabwysiadu'r FfDC ddim chwaith yn golygu fod pob datblygiad posib am ddigwydd wrth gwrs. Mae'n debyg i broses LDP lleol – ond ar lefel genedlaethol. Nodi y math o ddatblygiadau mewn ardaloedd addas mae o – bydd unrhyw gynigion penodol yn dal yn gorfod ennill caniatâd cynllunio etc cyn cael eu datblygu.

Mi wnes i godi sawl gwaith y gofidiau am waith ARUP gan adlewyrchu llawer o be oedd y sector ynni gwynt ei hun yn ei ddweud – sef mai dim ond tua 10% o'r tir yn yr ardaloedd a adnabuwyd ar gyfer datblygiadau posib oedd yn addas yn nhyb y sector! Er imi ailadrodd fy ngofidiau am eu gwaith ar bob pwynt yn y drafodaeth fe ddisgynnodd hynny ar glustiau byddar o safbwynt y Llywodraeth a'r Pwyllgor yn anffodus.

Wele isod felly'r nodyn dwi wedi ei gael ar yr ymgynghori cyhoeddus.

Fy nghyngor i ydi nad oes llawer o obaith herio'r FfDC erbyn hyn – herio'r cais cynllunio penodol ddylai fod yn brif-ffocws unrhywun sy'n gwrthwynebu'r cynllun arfaethiedig.

Yn gywir iawn

Llyr

Future Wales has been subject to an iterative public consultation process between 2016 and 2020, including Senedd committee scrutiny on two occasions and two Senedd debates on the final draft. The designated areas have also been subject to initial assessment to identify them, followed by statutory habitat and other assessments.

The National Development Framework (NDF) - [Future Wales: the national plan 2040](#) - was published in February and sets out the Welsh Government's policies on development and land use in a spatial context. Future Wales has development plan status and forms the highest tier of development plan in Wales.

Future Wales identifies a number of 'Pre-Assessed Areas for Wind Energy' (shown in the map on page 94). In these areas, the Welsh Government has already modelled the likely impact on the landscape and has found them to be capable of accommodating development in an acceptable way. There's a presumption in favour of large-scale wind energy development (including repowering) in these areas. This is set out in policy 17 of Future Wales. However any potential development would be subject to a number of criteria set out in policy 18 of Future Wales (the list of criteria can be found on page 95).

The Welsh Government has published a [summary of public involvement document](#) which provides an overview of how it consulted during the process – page 4 provides a timeline of the various stages between 2016 and 2020, and page 5 summarises the formal consultation stages. There are also a number of documents summarising individual engagement events [on the Welsh Government website](#) (under the heading 'Engagement', scroll to the bottom of the page). The major open consultations ran [from 30 April 2018 to 23 July 2018](#) and [from 7 August 2019 to 15 November 2019](#).

Alongside Future Wales, the Welsh Government has published the detailed [assessment used to identify these areas](#). The [executive summary](#) sets out the methodology behind the assessment (pages 2 to 4). In short the assessment took place in two stages between August 2018 and July 2019. The first stage involved the consultants, ARUP, developing an interactive tool in collaboration with the Welsh Government and stakeholders to identify initial broad priority areas for refinement. The second stage involved further analysis of the broad areas to refine them against more detailed criteria. The detail of the assessment is provided in these documents: [Stage 1: development of priority areas for wind and solar energy](#) and [Stage 2: refinement of priority areas for wind and solar energy](#).

As part of the process Future Wales was subject to a Habitats regulations assessment (HRA) and Integrated sustainability appraisal (ISA) (which is an assessment of the economic, environmental, cultural and social effects of a plan). Both the HRA and ISA can be found [on the Welsh Government website](#).

Future Wales was also subject to extensive scrutiny in the Senedd. During the Climate Change, Environment and Rural Affairs Committee's scrutiny of the 2019 draft of the NDF, renewable

sector stakeholders expressed concern about the methodology used to identify what were to become the Pre-Assessed Areas for Wind Energy. They suggested that less than 10% of the area is suitable for onshore wind, and only 5% is actually available. These concerns are summarised in the [Committee's report](#) (from page 31) but the Committee didn't draw a conclusion in this area. In all, the Committee scrutinised the first draft of the NDF in 2019 and the final draft of Future Wales in 2020 – all documentation relating to the Committee's work can be seen on the [Senedd website](#). There were also two Senedd debates on the final draft – on [29 September](#) and [25 November](#) 2020.

2. Adroddiad y Cynghorydd Sir ar faterion eraill yr ardal.

Y Bont Faen

Mae'r Cyngor Sir yn disgwyl caniatad CADW i weithio ar strwythur 'adeilad cofrestredig' ac yn debyg o dderbyn hynny yr wythnos hon. Mae trefniadau mynediad i'r safle ar fin cael eu cwblhau, ac mae trwydded Cyfoeth Naturiol Cymru i weithio ger yr afon wedi ei ganiatau.

Mae'r Awdurdod wedi cytundebu cwmni MWT i wneud y gwaith. Y cwmni yma hefyd wnaeth y gwaith ar y wal gwrth lifogydd ger y Bont.

Bydd y rhaglen waith yn parhau am tua 18 wythnos, o'r 9fed o Awst ymlaen. Bydd y ffordd wedi ei chau am gyfran helaeth o'r amser yma. Bydd Bryn Shiland, y swyddog sy'n gyfrifol, yn anfon diweddariad i'r Cyngor Cymuned yr wyrhnos hon a bydd llythyrau hefyd yn cael eu hanfon i drigolion lleol cyn diwedd yr wythnos. Bydd arwyddion ynrhag-rybuddio am y gwaith yn cael eu gosod ddydd Gwener yma.

Dŵr Cymru

Yn dilyn nifer o gwynion dros gyfnod sylweddol am doriadau i'r cyflenwad dŵr yn ardal Pandy Tudur, mae Garffild wedi trefnu i gyfarfod Prif Swyddog Dosbarthu/Distribution cwmni Dŵr Cymru ar y safle ddydd Gwener y 6ed o Awst. Bydd Garffild yn adrodd yn ôl am ei drafodaethau yng nghyfarfod nesaf y Cyngor Cymuned.

Gor-yrru yn Llangernyw

Yn anffodus mae'r broblem yn parhau, ac yn wir wedi gwaethygu os rhywbeth. Mae'r sefyllfa yn rhwystredig iawn, ac er gwaetha'r ffaith fod Garffild wedi gohebu'n gyson gyda Gan Bwyll/Go Safe (y tro dwetha ar y 20/06) does na ddim wedi digwydd.

Gwaith adnewyddu

Wedi blynyddoedd lawer o broblemau gyda llifogydd yn ardal Blaen Ddol, Llangernyw, a sawl trafodaeth gyda'r Cyngor Sir, mae Garffild yn falch fod gwaith wedi ei wneud bellach i glirio'r nant i lawr y cae o Nant Hir, a bod pibellau newydd yn cael eu gosod yn y 'culvert' ger y ffordd fawr.

Cae Chwarae Gwytherin

Wedi cyfarfod gydag Einir ac Emlyn a swyddog Caeau Chwarae Cyngor Conwy ar safle cae Chwarae Gwytherin ac wedi cael manylion llawn y gwaith fydd yn cael ei wneud i adnewyddu'r ffens o gwmpas y safle a chynlluniau eraill. Pawb o'r farn fod y gwaith yn mynd i wella'r adnodd yn sylweddol, a gobeithio y bydd y gwaith yn dechrau fis Medi.

Garffild Lloyd Lewis
Cynghorydd Sir
Gorffennaf 2021"

9 BILIAU

9.1 Enlli: £127.84, cytunwyd i dalu.

9.2 Dei Evans: torri gwair ym mis Gorffennaf: £420, cytunwyd i dalu.

9.3 AV: anfoneb paent ar gyfer paentio'r tybiau blodau a staenio ayyb, gwirfoddolwyr yn gwneud y gwaith. Grant ar gael gan Conwy Cynhaliol. Penderfynwyd defnyddio i gael mainc i Pandy Tudur, staen a phaent a fod gweddill yr arian yn cael ei roi tuag at yr arwyddion gan Berwyn Evans (drafodwyd uchod). Pawb yn gytun i fynd ymlaen efo'r cais am y grant. Anfoneb am y paent a'r staen £48.47, cytunwyd i dalu.

10 MATERION LLEOL

EW wedi bod mewn trafodaeth efo DR fod y Lion yng Ngwytherin wedi cael ei droi yn Air BnB, ddim yn sicr eu bod wedi cael caniatad cynllunio i newid y defnydd. EW am gysylltu efo'r adran gynllunio.

DR gwaith ffordd yn cael ei wneud yn lleol ar hyn o bryd.

REW yn gofyn am bwyllgor mynwentydd yn fuan, i'w drefnu ym mis Medi cyn y cyfarfod llawn.

GW cau ffordd i darmacio yn lleol, wedi cael profiad gwael yn ddiweddar. GLL am gysylltu efo'r adran briffyrdd i sicrhau fod trefniadau priodol mewn lle.

AV gofyn os oedd cais cynllunio wedi dod i law ynglyn a Shepherd's Cottage ym Mryn yr Aur. CR ddim yn ymwybodol fod cais wedi dod i law. CR am wneud ymholiadau ynglyn â hyn.

11 CYFARFOD NESAF

22^{ain} Medi 2021 (Cyfarfod Rhithiol)

Cyfarfod yn dod i ben 8:55yh

Cymerwyd y cofnodion gan Enlli Vaughan